OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 1018

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol etc) (Presgripsiynau Amlroddadwy) (Diwygio) (Cymru) 2004

## RHAN 2

## DIWYGIO RHEOLIADAU'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL (FFIOEDD AM GYFFURIAU A CHYFARPAR) (CYMRU) 2001

### Diwygio rheoliad 3

**8.**—(1) Diwygir rheoliad 3 (cyflenwi cyffuriau a chyfarpar gan fferyllwyr) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1), yn lle "Yn ddarostyngedig i baragraff (3)," rhowch "Ac eithrio fel a ddarperir ym mharagraff (1A) ac yn ddarostyngedig i baragraff (3),".

(3) Ar ôl paragraff (1) mewnosodwch—

"(1A) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i fferyllydd sy'n darparu gwasanaethau amlweinyddu i glaf, godi ar y claf hwnnw a chasglu ohono, ar gyfer pob aml-ddyroddiad—

(a) ffi o £6.00 am eitem hosan elastig, hynny yw, ffi o £12.00 y pâr;

(b) ffi o £6.00 am gyflenwi pob cyfarpar arall ac am bob swm o gyffur.

(1B) Os yw ffi yn cael ei thalu o dan baragraff (1A), wrth wneud y taliad rhaid i'r person sy'n talu lofnodi datganiad ysgrifenedig ar y swp-ddyroddiad fod y ffi berthnasol wedi'i thalu.".

(4) Yn lle paragraph (3) rhowch—

(3) Rhaid peidio â chodi na chasglu unrhyw ffi o dan baragraff (1) neu (1A) —

(a) os oes esemptiad o dan reoliad 8 a bod datganiad o hawl i gael esemptiad wedi'i gwblhau'n briodol gan y claf neu ar ei ran—

(i) mewn achosion sy'n dod o dan baragraff (1A), ar y swp-ddyroddiad adeg cyflenwi'r cyffur neu'r cyfarpar,

(ii) ym mhob achos arall, ar y ffurflen bresgripsiwn;

(b) os oes hawl i beidio â thalu'r ffi o dan reoliad 3 o'r Rheoliadau Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl a bod datganiad o hawl i beidio â thalu wedi'i gwblhau'n briodol gan y claf neu ar ei ran—

(i) mewn achosion sy'n dod o dan baragraff (1A), ar y swp-ddyroddiad adeg cyflenwi'r cyffur neu'r cyfarpar,

(ii) ym mhob achos arall, ar y ffurflen bresgripsiwn; neu

(c) os yw'r claf yn preswylio mewn ysgol y mae ei henw wedi'i mewnosod neu neu sefydliad y mae ei enw wedi'i fewnosod ar y ffurflen bresgripsiwn gan feddyg yn unol â pharagraff

44 o Atodlen 6 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004.

(5) Ym mharagraff (5)—

(a) ar ôl "ffurflen bresgripsiwn" mewnosodwch "neu bresgripsiwn amlroddadwy"; a

(b) ar ôl "baragraff (1)" mewnosodwch "neu baragraff (1A)".

(6) Ym mharagraff (6)—

(a) ar ôl "paragraff (1)" mewnosodwch "neu baragraff (1A)" ; a

(b) yn y testun Saesneg, hepgorwch "[dmb1/".